# Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Medi 2010.

**Presennol:**

Cynghorydd Ieuan William - Cadeirydd

Cynghorwyr Keith Evans; D.Rees Hughes; T.Lloyd Hughes; Eric Jones; R.Dylan Jones; Raymond Jones; ;G.O.Parry MBE; Eric Roberts; P.Rogers; John Penri Williams; Selwyn Williams;

**Yn mynychu:**

Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol;
Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol;
Swyddog Sgriwtini,
Cynorthwyydd Sgriwtini Dros Dro (DG);
Swyddog Pwyllgor (JMA).

**Ymddiheuriadau:**

Mr Keith Roberts;

**Hefyd yn bresennol:**

Cynghorydd C.Everett (Aelod Portffolio Rheolaeth Gorfforaethol;)
Cynghorydd T.H.Jones (Aelod Portffolio Cyllid);

**Sylwedyddion:**

Nigel Griffiths (Swyddfa Archwilio Cymru);
Bill Horn (Bwrdd Adfer)
Graham Williams (Bwrdd Adfer);

---

Cyhoeddodd y Cadeirydd mai hwn oedd ei gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd a mynegodd ei ddyhead cryf i waith y Pwyllgor fod yn llwyddiannus. Cydnabu fod Sgriwtini wedi ei feirniadu yn y gorffennol ond credai'n bendant gyda chefnogaeth Aelodau, y gellid gwneud newidiadau ac y gallai Sgriwtini ddod yn endid effeithiol ac effeithlon.

Cyn cychwyn ar yr Agenda i'r cyfarfod, cyfeiriodd y Cynghorydd John Penri Williams at y ffaith mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf i Ms. Frances Taylor fynychu. Credai fod Ms Taylor wedi gwneud cyfraniad sylweddol a llwyddiannus, gan gyflenwi neges gref mewn modd sensitif a rhoi cyngor defnyddiol i Aelodau. Diolchodd iddi am ei

chyfraniad a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Cefnogodd y Cadeirydd y sylwadau hynny.

## 1. Datgan diddordeb

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem a drafodwyd.

## 2. Cofnodion

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir:-

8 Ebrill 2010 (Cyfrol Cofnodion Cyngor Tudalennau 25-27);
20 Mai 2010 (Cyfrol Cofnodion Cyngor Tudalennau 75-77);
13 Gorffennaf 2010 (Cyfrol Cofnodion Cyngor Tudalen 163);
2 Awst 2010 (Galw penderfyniad i mewn);

Nodwyd y darn o'r cofnod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16eg Awst 2010.

Nododd y Cynghorydd G.O.Parry MBE, er gwybodaeth, ei fod wedi ysgrifennu at y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro ynglŷn â rôl y Cynghorydd T.Lloyd Hughes yn y cyfarfod galw-i-mewn. Roedd y Cynghorydd Hughes wedi cynnig bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith er ei fod yn Aelod o'r Pwyllgor Safonau. Cadarnhaodd nad oedd y Cynghorydd Hughes wedi pleidleisio ar y mater. Mae eto i dderbyn ymateb i'w lythyr ond dywedodd ei fod angen ateb i'r cwestiwn a gododd. Dywedodd y Cynghorydd Hughes ei fod yn siomedig nad oedd cysylltiad personol wedi ei wneud ag ef i ymateb i bryderon y Cynghorydd Parry. Dywedodd ei fod wedi cymryd cyngor gan y Swyddog Monitro ac y dywedwyd wrtho fod ei weithred yn gwbl briodol gan nad oedd yn bresennol yn y Pwyllgor Safonau pan y trafodwyd y Polisi Dyrannu Tai. Roedd y Cynghorydd Parry yn ddiolchgar am yr esboniad.

## 3. Adolygiad Adnoddau Dynol

Cyflwynwyd er ystyriaeth - adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol ynghyd â'r Cynllun Gweithredu Adnoddau Dynol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith fod nifer o adroddiadau wedi cael eu hysgrifennu dros y blynyddoedd ynglŷn â materion AD. Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi comisiynu Sue McNally i edrych ar yr adroddiadau hynny a chyflwyno Rhaglen Waith. Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth AD a'i gwahodd i annerch y cyfarfod.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth AD mai dim ond ers pum wythnos y bu mewn swydd ac roedd yn ceisio gwneud cynnydd ar bob mater mae ganddi gyfrifoldeb amdano. Ychwanegodd fod adroddiad Sue McNally wedi ei gyflwyno i'r Grŵp Uwch Arweinyddiaeth ynghyd â Chynllun Gweithredu. Mae trafodaethau wedi eu cynnal gydag Aelodau a Swyddogion perthnasol a chyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu amcanion tymor byr, canolig a hir yng nghyfarfod heddiw. Eglurodd fod y paneli gwyrdd yn dangos gwaith sydd wedi'i gwblhau, ambr yn cyfeirio at faterion sy'n derbyn sylw ac sydd ar amser, a choch yn golygu materion sydd heb eto eu cwblhau, ble bo angen cymryd penderfyniadau cyn y gellir symud ymlaen â nhw.

Eglurodd y Swyddog fod ad-drefnu o fewn yr adran AD wedi arwain at ddau swyddog AD ychwanegol, fodd bynnag cawsant eu symud o feysydd gwaith eraill o fewn yr isadran ac ni phenodwyd staff ychwanegol. Tynnodd sylw at y gymhareb ddelfrydol o staff AD i weithwyr, sef 1 swyddog AD i bob 115 o weithwyr. Ar hyn o bryd, mae Cynulliad Cymru yn gweithio ar gymhareb o 1:54 ond bydd hyn yn gostwng yn fuan i 1:247. Wedi ei seilio ar batrwm presennol y Cyngor hwn gyda chyfanswm o 12 o staff AD yn eu lle, mae hyn yn cyfateb i 1.247. Byddai cael cymhareb mwy realistig o 1:115 yn cyfateb i sefydlu oddeutu 26 o staff. Mae'r tan gynhwysedd presennol wedi effeithio ar y gwasanaeth.

Yn ychwanegol, meddai, yn ystod y pum wythnos y bu yn y swydd mae'r adran AD wedi ei hadleoli i Brif Swyddfeydd y Cyngor. Dynodwyd dwy ystafell gyfweld a fyddai'n profi'n ased wrth gynnal cyfarfodydd cyfrinachol/preifat neu gyfweliadau. Tynnodd sylw at y Crynodeb Rheoli Prosiectau a oedd yn dangos o gyfanswm gweithgaredd o 45, fod 8 wedi eu cwblhau, roedd 29 yn yr adran ambr ac 8 yn yr adran goch. Mewn ymateb i'r rhesymau pam fod oedi wrth weithredu gweithgareddau yn yr adran goch, eglurodd y Swyddog fod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n gysylltiedig. Eglurodd fod y System Personél TG bresennol, Compel, wir angen ei diweddaru ar frys. Cytunwyd ar ariannu ar gyfer y diweddariad gyda bonws teyrngarwch ardderchog wedi ei roi gan y Cwmni. Fodd bynnag, cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â chysylltu'r systemau Personél a'r Gyflogres. Darperir y ddwy system gan ddau gwmni gwahanol. Cydnabu efallai ei bod yn bosib i'r gwaith gael ei wneud, fodd bynnag, byddai raid cynnal adolygiad o'r gofynion. Cydnabu bod barn gref yng nghyswllt mabwysiadu system newydd gyda'r un cwmni. Fodd bynnag, pwysleisiodd ei chred y dylid gosod diweddariad gan Compel yn ddi-oed ac y gellid archwilio prosiect tymor hir ynglŷn â gosod Personél a'r Gyflogres ar yr un system, a gwneud yr adolygiadau gofynnol. Ychwanegodd y gallai gweithio ar brosiect cydweithredol Gogledd Cymru fod yn opsiwn gan fod Cynghorau eraill ar draws ardal Gogledd Cymru yn gweithio ar systemau gwahanol, fodd bynnag, ni fu trafodaethau nac amserlennu trafodaethau hyd yn hyn. Credai y byddai cael diweddariad Compel yn cynorthwyo gydag unrhyw drosglwyddiad diweddarach.

Credai'r Cynghorydd K.Evans fod y mater cynhwysedd yn bwysig a bod angen edrych ar gael y strwythur yn gywir. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod ef a'i Bwyllgor yn dymuno cynorthwyo'r adran mewn unrhyw ffordd bosib. Mae AD wedi ei ddynodi fel

Risg Corfforaethol ychwanegodd, a dymunai weld AD yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr honno. Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at weithgaredd 11 yng nghyswllt y Cynllun Oriau Ystwyth a ddangoswyd yn yr adran ambr fel “bydd yn cael ei ddatganoli” a gofynnodd am eglurhad o hynny.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau AD y Cynllun Oriau Ystwyth (sef y system ‘clocio i mewn’) a’r System Gofnodi Oriau Ystwyth. Yn hanesyddol, bu bob agwedd ar Oriau Ystwyth yn gyfrifoldeb AD er nad oedd yn gwybod y rheswm am hyn. Mae’r system bresennol yn dyddio’n ôl cyn 1996. Cost blynyddol y gwasanaeth yw £15k, fodd bynnag ers 1996 bu’r gyllideb yn £7.000. Nid oedd yn credu mai mater AD yn unig oedd y system. Rhoddodd arwydd bod materion TG ynghlwm â hyn yn ogystal â Diogelwch Drysau sy’n gorwedd gyda’r Adran Eiddo. Roedd yn bendant o’r farn y dylid datganoli’r cyfrifoldeb am y system oddi wrth AD. Cyfeiriodd y Swyddog at y Fframwaith Dirprwyo y mae’r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi ei gomisiynu fel rhan o Rheolwr Môn (llawlyfr gydag atodiadau yn rhoi arwydd o bwy sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau). Mae’r system Oriau Ystwyth o fewn y maes sydd i’w ddirprwyo, fodd bynnag mae angen penderfyniad i rywun dderbyn cyfrifoldeb amdani. Roedd terfyn amser ar gyfer mewnbynnu i’r Fframwaith Dirprwyo ar 30ain Medi, ac ar ôl hynny byddai’r canfyddiadau’n rhan o’r hyn a ddisgwylir gan Reolwyr Môn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â’r broses recriwtio, eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau AD y gweithdrefnau a ddefnyddir i lenwi swydd wag, Ychwanegodd nad yw penodi Ymgynghorwyr neu Staff Asiantaeth yn dod i mewn i gylch gorchwyl AD. Dywedodd y Cynghorydd Eric Jones fod ganddo bryderon difrifol ynglŷn â ‘r nifer o staff asiantaeth tymor hir a gyflogir gan y Cyngor, gyda rhai wedi bod yn gyflogedig am dros ddwy flynedd. Yn ychwanegol, roedd yn gwrthwynebu penodi unigolion ar bensiynau cyflog terfynol. Credai y dylid rhoi’r pwyslais ar gyflogi pobl ifanc leol i swyddi ble bynnag bo’n bosib. Roedd yn ymwybodol o unigolion yn y proffesiwn dysgu a oedd yn ymddeol, dim ond i ddychwelyd i waith yn syth bron fel athro/athrawes llanw tra bod athrawon newydd-gymwysedig yn methu â chael gwaith. Roedd ganddo hefyd bryderon ynglŷn â’r diffyg ymddangosiadol o arbenigedd yn y Cyngor, a oedd yn golygu fod angen penodi Ymgynghorwyr. Roedd y Cynghorydd G.O.Parry MBE yn cytuno â’r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Jones. Roedd yn credu y dylai’r holl recriwtio, yn cynnwys Ymgynghorwyr a Staff Asiantaeth, gael eu cyfeirio drwy AD.

Codwyd y mater o’r broses yr ymgymerir â hi i lenwi swydd wag gan gynnwys oedi amlwg mewn recriwtio. Ymatebodd y Swyddog drwy ddweud bod rhaid i swyddi newydd gael eu hysbysebu’n unol â pholisi. Oherwydd y Broses Arfarnu Swyddi, mae pob swydd newydd yn cael ei gyrru i Gymhariaeth Ffactor a Bwrdd Arfarnu Swyddi ar gyfer sgorio.

Croesawodd y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes yr adroddiad ond roedd yn pwysleisio'r pwysigrwydd o ddynodi unrhyw oedi. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei safbwyntiau ynghylch pa faterion y dylid eu blaenoriaethu.

Nododd y Swyddog anghenion staffio, uwchraddio'r system TG a chynigion i'r dyfodol ynglŷn â TG – pwysleisiodd na ellid cyflawni llawer o'r gweithgareddau maes coch hyd nes oedd y system TG wedi'i huwchraddio. Cydnabu'r Cadeirydd felly ei fod yn hanfodol uwchraddio'r system Compel.

Dywedodd y Deilydd Portffolio AD, y Cynghorydd C.Everett, bod yr archwilwyr wedi dynodi AD fel un o'r risgiau uchaf i Awdurdodau Lleol. Dywedodd y byddai deddfwriaeth yn achos Anabledd a Recriwtio yn cael ei gyflwyno ar 1af Hydref 2010 ac y byddai hyn yn effeithio ar yr adran AD. Tynnodd sylw at adrannau 6.12 a 6.13 o'r adroddiad, a oedd yn dynodi'n glir yr angen i uwchraddio'r system Compel. Dywedodd y byddai'n adrodd ar y mater hwn yn y Pwyllgor Gwaith a gwahoddodd y Deilydd Portffolio Cyllid i drafod y broblem hon ag ef a'r Rheolwr Gwasanaethau AD mewn ymdrech i hwyluso materion. Gofynnodd y Cynghorydd John Penri Williams p'un a oedd unrhyw adran arall yn arafu'r broses a p'un a fyddai'n ddefnyddiol i bawb sy'n rhan o'r mater ei drafod a ffurfio amserlen ar gyfer cynnydd. Cadarnhaodd y Swyddog bod yr angen wedi'i ddynodi gan ymgynghorydd annibynnol allanol, yn cynnig gweithredu'r uwchraddiad i Compel yn dilyn trafodaethau â Swyddogion. Cytunodd y Cadeirydd â'r ymresymu hynny ac o ystyried y ffaith bod ariannu yn ei le i uwchraddio, croesawodd fwriad y Deilydd Portffolio i gyfeirio'r mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith ei weithredu. Yn ychwanegol credai petai gwrthdaro rhwng adrannau y dylid rhoi proses yn ei lle i ddatrys unrhyw anawsterau strategol rhwng adrannau. Cytunodd y Deilydd Portffolio â'r syniadau a fynegwyd gan Aelodau a Swyddogion yng nghyswllt uwchraddio'r system Compel yn enwedig gan na fyddai'n peryglu unrhyw system newydd a gâi ei hintegreiddio ar ddyddiad diweddarach.

Gwnaethpwyd sylw ynglŷn â'r angen i Strategaeth Pobl y Cyngor gael ei hadnewyddu, a phwysigrwydd y Rhaglen Waith a Chynllunio Dilyniant. Gwnaethpwyd awgrym i aelodau staff sydd wedi mynychu a chwblhau'n llwyddiannus gyrsiau yn John Moores, Lerpwl gael eu defnyddio i hwyluso'r broses. Adroddodd y Swyddog fod nifer o elfennau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd sy'n cefnogi Strategaeth Pobl, yn cynnwys materion cydweithredol ar draws Awdurdodau Gogledd Cymru, fodd bynnag nid yw Ynys Môn eto wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hynny ond byddai'n gwneud pob ymdrech i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â Gwerth Gorau ganddynt. Cydnabu ar gyfer y dyfodol y byddai Cynllunio Ymlaen/ Rheoli Talent a Datblygu Staff Presennol i gyd yn ffitio'i mewn i'r Strategaeth Pobl. Yn ychwanegol, credai ei bod yn bwysig y dylid gwneud y gwahaniaeth rhwng Staff Asiantaeth ac Ymgynghorwyr yn glir yn y Strategaeth. Atgoffodd Aelodau fod Ymgynghorwyr yn arbenigwyr yn eu meysydd penodol eu hunain a'u bod yn cael eu comisiynu ar sail tymor byr yn unig. Credai'r Cynghorydd G.O.Parry MBE y dylid bod polisi clir ar werth gorau ynglŷn â staff asiantaeth, ymgynghorwyr a'r rheiny sy'n derbyn pensiynau ymddeoliad a gyflogir gan yr Awdurdod. Cydnabu'r Cynghorydd

Everett bod angen edrych ar y darlun ehangach yn yr ystyr fod Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd gyda'u pobl eu hunain yn delio â materion AD. Credai y dylid lleoli'r holl faterion AD yn ganolog a bod angen ymdrin â'r mater hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd T. Lloyd Hughes, adroddodd y Swyddog ar wahanol ffyrdd o hysbysu staff ynghylch datblygiadau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r Bwletin Staff a roddir i mewn ym mhecynnau cyflog staff, Y Ddolen ayb. Cyfeiriodd y Swyddog hefyd at hyfforddiant a'r broses recriwtio bresennol ble mae swyddogion AD yn mynychu pob cyfweliad. Roedd yn dymuno hyfforddi Rheolwyr i ymgymryd â'r rôl hon a fyddai'n rhyddhau swyddogion AD i wneud dyletswyddau eraill. Roedd yn dymuno gweld hyfforddiant yn cael ei ffocysu ar anghenion a'i gyflenwi'n fewnol ble bynnag y bo'n bosib. Cyfeiriodd hefyd at y system arfarnu y mae'n ei hystyried yn elfen hanfodol, ychwanegodd y bydd newidiadau yn cael eu gweithredu o Ebrill 2011 a fydd yn dynodi sgiliau cymhwysedd.

Holodd yr Is Gadeirydd ynglŷn â'r Cynllun Iechyd Galwedigaethol. Eglurodd y Swyddog na all leoli contract ffurfiol rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a bod trafodaethau yn mynd yn eu blaen i gywiro y mater hwn fel mater o frys. Byddai'n ceisio trafod telerau sydd yn cwrdd ag anghenion y Cyngor ac yn rhoi gwerth gorau am arian. Credai'r Cynghorydd Keith Evans y dylid cynnwys absenoldeb salwch fel eitem reolaidd ar agenda'r Pwyllgor hwn yn enwedig o gofio goblygiadau cost i'r Cyngor yng nghyswllt materion absenoldeb. Roedd y Cadeirydd yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi cyfle i'r Swyddog ddatrys y mater contract ac i ystyried ffyrdd o reoli absenoldebau salwch. Credai y dylid ystyried y mater hwn fel eitem ar ei phen ei hun, a'i adolygu ar sail chwe misol.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei chyflwyniad ardderchog a'i hymateb i gwestiynau'r Aelodau. Nododd barodrwydd y Pwyllgor i gynorthwyo'r gwasanaeth a gwahoddodd y Swyddog i gysylltu ag ef petai hi angen cymorth y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD :-**

**(i) fod y Deilydd Portffolio, Cynghorydd C.Everett, yn annog y Pwyllgor Gwaith i sicrhau fod system ddiweddaru Compel yn cael ei gosod fel mater o frys;**

**(ii) fod y Deilydd Portffolio yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod proses yn cael ei gweithredu i ddatrys unrhyw wahaniaethau barn rhwng adrannau ynglŷn â'r cyfrifoldeb am y system amser Oriau Ystwyth a dynodi adran neilltuol a'i chadarnhau fel yr un â chyfrifoldeb am y system gyda'r canlyniad yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn;**

**(iii) fod Polisi clir yn cael ei weithredu ynglŷn ag arfer gorau wrth gyflogi ymgynghorwyr, staff asiantaeth ac unigolion sydd wedi ymddeol ac sy'n derbyn pensiwn galwedigaethol gan gyflogwr;**

**(iv) fod y Polisi y cyfeirir ato yn (iii) uchod yn cynnwys staff a gyflogir gan holl adrannau'r Cyngor yn cynnwys Addysg, Hamdden a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y Polisi yn cael ei reoli'n ganolog;**

**(v) bod diweddariad yn cael ei roi mewn cyfarfod i'r dyfodol o'r Pwyllgor hwn ynglŷn â chanlyniad y trafodaethau yng nghyswllt y Contract Iechyd Galwedigaethol gyda sylw arbennig i faterion gwerth am arian;**

**(vi) i gynnwys absenoldeb Salwch fel eitem ar Agenda'r Pwyllgor hwn mewn chwe mis a bob chwe mis wedi hynny;**

## 4. Proses Ariannol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol adroddiad llafar yng nghyswllt y Cynllun Archwilio, Archwilio a Sgriwtini a Sgriwtini Cyllidebau a'r Broses Gosod Cyllideb.

Archwilio a Sgriwtini - Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cydnabod yr angen i wella'r prosesau Sgriwtini ac archwilio. Roedd yn dymuno osgoi dyblygu rolau yr oedd yn ymwybodol oedd wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Cyfeiriodd at dair agwedd bwysig, h.y.

Cydymffurfiaeth – cydymffurfio â'r gyfraith, Cyfansoddiad y Cyngor a Chyrff Llywodraethol ayb.;
Risg - cydnabod risg a rheolaeth risg - roedd yn cydnabod bod angen gwneud gwaith yn y meysydd hyn ond mae hynny angen adnoddau ychwanegol cyn y gellir datblygu'r mater;
Llywodraethu – Goruchwylio'r ffordd y mae'r Cyngor yn llywodraethu a sicrhau y cymerir penderfyniadau yn y dull cymeradwy. Tra bod gan Sgriwtini gyfrifoldeb am herio penderfyniad, mae Archwilio yn sicrhau y cyrhaeddwyd at benderfyniad yn y modd cywir.
Yng nghyswllt Polisi, mae gan Sgriwtini gyfrifoldeb ar gyfer datblygu a herio polisi tra bod Archwilio yn cymryd y polisi'n ganiataol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol grynodeb byr o'r Cynllun Archwilio. Cyflwynir y Cynllun i'r Pwyllgor Archwilio gydag Isadran Archwilio Mewnol y Cyngor yn gweithio i'r Cynllun unwaith iddo gael ei fabwysiadu ar ran y Cyngor. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cadarnhau nad oes gan Swyddogion unrhyw fewnbwn ymlaen llaw i'r Cynllun. Credai y gallai Archwilio a Sgriwtini gynorthwyo ei gilydd, fodd bynnag, roedd yn bwysig osgoi dyblygu.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi siarad â Ms Frances Taylor ynglŷn â'r Rhaglen Waith ac roedd wedi edrych ar Reoli Prosiectau a Chynllunio Busnes. Nododd fod Cynlluniau Busnes ar Agenda'r Pwyllgor Archwilio. Roedd y Cyfarwyddwr

Corfforaethol yn cadarnhau y byddai Archwilio yn edrych ar Gynlluniau Busnes i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini fyddai sicrhau fod y polisi'n gywir. Credai'r Cadeirydd y dylai rôl Sgriwtini gynnwys adolygu polisïau, gweithdrefnau ac adnoddau, a mabwysiadu diwylliant cynllun busnes. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n dymuno trafod y mater gyda Phennaeth Archwilio cyn gweithredu unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau presennol.

Sgriwtini Cyllidebau a Proses Gosod Cyllideb - Ymdebygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y broses i'r diwydiant amaethyddol yn yr ystyr fod y broses yn barhaus drwy'r flwyddyn. Unwaith y mabwysiedir y gyllideb ym Mawrth, mae'r broses adolygu yn cychwyn yn syth gyda llygad gyson yn cael ei chadw ar y broses gyfan. Yn ychwanegol, mae cynllunio ganol tymor angen Sgriwtini cyson. Amlinellodd y cyfnod hynod brysur rhwng cael y ffigyrau blynyddol gan LlCC a'r Gyllideb yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a'r Deiliaid Portffolio rôl y Pwyllgor Gwaith yn y broses a chydnabod pwysigrwydd i'r Pwyllgorau Sgriwtini gael mewnbwn cynnar i'r broses. Siaradodd am y gostyngiad sylweddol mewn ariannu sy'n rhoi swyddi a gwasanaethau mewn risg. Cadarnhaodd fod trafodaethau cyfrinachol wedi eu cynnal i osgoi cynhyrfu staff. Atgoffodd yr Aelodau o'r Adolygiad Gwariant sydd ar y gweill, ac ar ôl hynny disgwyliai y byddai LlCC yn cael eu hysbysu o'r sefyllfa ariannol ac wedi hynny byddai'r wybodaeth yn cael ei phasio ymlaen i'r Awdurdodau Lleol. Mae'r rhagolygon yn ymddangos fel petaent yn rhoi arwydd o doriad Refeniw o 3% a thoriad Cyfalaf o 10%, fodd bynnag, ni chafwyd cadarnhad swyddogol a bydd angen gwneud llawer o waith unwaith y rhyddheir y ffigyrau terfynol. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i'r Pwyllgor Sgriwtini gydweithredu a chefnogi'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn credu ei fod ddigon cyfarwydd â'r Cyllidebau Sgriwtineiddio na'r modd y gosodir cyllidebau. Cyfeiriodd at Reoli Prosiectau a Chynlluniau Busnes a gofynnodd p'un a allai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol roi cyflwyniad i'r Pwyllgor hwn ar y pwnc. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai angen amser i ystyried y cais cyn cytuno iddo, gan fod y prosesau'n newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n cymryd ei gyfeiriad gan y Pwyllgor Gwaith ar faterion fel Cartrefi Preswyl, fodd bynnag rhaid iddo gadw mewn cof effaith ymrwymiadau'r flwyddyn flaenorol ar unrhyw benderfyniadau a wneir. Rhoddodd y Cadeirydd arwydd fod Adroddiad Archwilio Cymru wedi dynodi gwendidau yn y Fframwaith Polisi, o gofio fod blaenoriaethau'r Cyngor yn newid yn gyson. Dywedodd y byddai'n gwerthfawrogi sut mae'r broses o osod y Gyllideb yn gweithio e.e. o ble y dyrennir yr arian, pa grantiau a delir, ayb. oherwydd credai y byddai hyn yn ei gynorthwyo yn ei rôl fel Cadeirydd Sgriwtini.

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol y byddai angen amser i ystyried y cais ond ychwanegodd ei bod yn bur bosib y bydd Aelodau'n siomedig â'r swm o ariannu sydd ar gael unwaith y bo ymrwymiadau ariannol eraill wedi eu cwrdd. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Selwyn Williams, amlinellodd y Cyfarwyddwr

Cyllid Corfforaethol y gwahanol ffynonellau sy'n rhoi arwyddion o'r rhagolygon ariannol sydd ar y gweill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol a'r Deilydd Portffolio am eu mewnbwn ac roedd yn edrych ymlaen at adroddiadau pellach a diweddariadau mewn cyfarfodydd i'r dyfodol.

## 5. Rhaglen Waith

5.1 Cyflwynwyd a nodwyd copi o Raglen Waith y Pwyllgor a oedd wedi ei baratoi gan Bennaeth Dros Dro Sgriwtini a'r Swyddog Sgriwtini.

5.2 Cyflwynwyd a nodwyd copi o Raglen Waith y Cyngor am y cyfnod Hydref 2010 i Fawrth 2011.

Adroddodd y Cadeirydd fod Rheolwr Sgriwtini wedi ei phenodi ac y byddai'n cychwyn ar ei dyletswyddau ym mis Tachwedd. Ar yr adeg honno, byddai'r Cadeirydd yn trafod y materion uchod ynghyd â materion Sgriwtini yn gyffredinol gyda'r Swyddog, ac roedd yn gobeithio ffurfio Rhaglen Waith i'w chyflwyno i'r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd.

Cyn cau'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i Ms. Frances Taylor am ei chymorth a chyngor gwerthfawr yn ystod chyfnod gyda'r Cyngor.

**Cynghorydd Ieuan Williams**
**Cadeirydd**